CGC

CIC

Y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ)



# Newidiadau i Wasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC

Mae Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC yn gweithredu ar ran Cyrff Dyfarnu'r CGC. Y Gwasanaeth Arolygu sy'n cynnal arolygiadau i gefnogi canolfannau wrth iddyn nhw ddarparu arholiadau. Mae'r broses hon yn diogelu cywirdeb y system arholiadau drwy sicrhau bod rheoliadau'r CGC yn cael eu cadw ac arholiadau pob myfyriwr yn cael eu gweinyddu'n deg.

Mae cyrff dyfarnu'r CGC yn adolygu eu prosesau'n rheolaidd, gan gynnwys gwaith Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC. Oherwydd y newidiadau sy'n digwydd yn y byd addysg, ar sail adborth gan ein canolfannau a'r angen i atgyfnerthu diogelwch yr arholiadau, penderfynwyd cyflwyno rhai newidiadau dros y ddwy flynedd academaidd nesaf. Mae'r newidiadau hyn yn golygu'r canlynol:

- √ Cynnal amrywiaeth ehangach o fathau o arolygiadau drwy gydol y flwyddyn
- √ Gall canolfannau dderbyn amrywiol arolygiadau yn ystod un gyfres arholiadau
- √ Caiff mwy o bwyslais ei roi ar ddiogelwch papurau cwestiynau ac arfer gorau yn yr arholiad

O hydref 2018 bydd Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC yn ehangu'r dewis o arolygiadau i ategu'r Arolygiadau haf Cyffredinol cyfredol, ymweliadau cyn cofrestru, ymweliadau newid cyfeiriad/storfa ddiogel ac arolygiadau Trefniadau Mynediad. Bydd yr arolygiadau newydd yn cynnwys y canlynol:

**Arolygiadau Parodrwydd**

Sicrhau bod canolfannau'n gwbl barod ar gyfer cyfresarholiadau i ddod

**Arolygiadau Papurau Cwestiynau**

Arolygiadau i sicrhau bod papurau cwestiynau pwnc penodol yn cael eu storio'r briodol yn unol â'r rheoliadau a gyhoeddwyd

**Arolygiadau cyffredinol yn ystod cyfres arholiadau Tachwedd**

Sicrhau bod gweithdrefnau canolfannau ar gyfer darparu arholiadau'n unol â rheoliadau cyhoeddedig y CGC



00787JCQ Ceut.re lnspectio n Service Ch3Jlges.ind d 1 28/0'J/Z0IS 09:19:38